

HYSBYSIAD PWYSIG I BRESWYLLWYR A MANWERTHWYR

Gwybodaeth a Chau Ffyrdd yn Ystod Digwyddiadau'r Nadolig

FFAIR NADOLIG YSTRAD MYNACH

Dydd Sadwrn 16 Tachwedd 2019

LLEOLIAD: Heol Bedwlwyn a Stryd Maes-y-dderwen.

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd Heol Bedwlwyn a Stryd Maes-y-dderwen ar gau o 10.00pm ar 15.11.19 tan 9.00pm ar 16.11.19.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: A fydddech cystal â threfnu derbyniadau nwyddau cyn 10.00pm ar 15.11.19 ac ar ôl 9.00pm ar 16.11.19.

MYNEDIAD I BRESWYLLWYR: Rhaid gwneud trefniadau parcio amgen. Ni chaniateir parcio ar Heol Bedwlwyn na Stryd Maes-y-dderwen o'i chyffordd â Heol Bedwlwyn i tu ôl i Ganolfan Gristnogol Siloh. Dylai preswylwyr Stryd Maes-y-dderwen gael mynediad i'w heiddo drwy Faes Parcio Stryd Oakfield yn ystod y cau ffyrdd.

TACSIS: Ni chaniateir unrhyw dacsis yn ystod y cau ffyrdd.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Bydd yr arosfannau bysiau a effeithir gan y cau ffyrdd yn cael eu symud i Lyfrgell Ystrad Mynach ar y Stryd Fawr a byddant yn gweithredu llwybr amgen o gwmpas Heol Pengam.

LLAWR SGLEFRIO IÂ BARGOD

Dydd Gwener 20 -

Dydd Sul 24 Tachwedd 2019

LLEOLIAD: Maes parcio tanddaearol Morrisons.

ORIAU AGOR: 10.00am - 7.00pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd dim ffyrdd yn cau yn ystod y digwyddiad hwn.

MYNEDIAD TACSIS, MANWERTHWYR A PHRESWYLLWYR: Nid yw'r digwyddiad hwn yn effeithio ar unrhyw faterion mynediad.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Nid yw'r digwyddiad hwn yn effeithio ar unrhyw arosfannau/llwybrau bysiau.

FFAIR Y GAFAF, BARGOD

Dydd Sadwrn 23 Tachwedd 2019

LLEOLIAD: Canol Tref Bargod.

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd Heol Hanbury a'r Stryd Fawr o'u cyffyrdd â Stryd y Coed, Stryd y Gorllewin, Stryd y Groes a Stryd y Capel ar gau o 9.00pm ar 22.11.19 tan 9.00pm ar 23.11.19.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: A fydddech cystal â threfnu derbyniadau nwyddau cyn 9.00pm ar 22.11.19 ac ar ôl 9.00pm ar 23.11.19.

MYNEDIAD I BRESWYLLWYR: Rhaid gwneud trefniadau parcio amgen. Ni chaniateir parcio ar Heol Hanbury na'r Stryd Fawr o 9.00pm ar 22.11.19 tan 9.00pm ar 23.11.19.

TACSIS: Ni chaniateir tacsis ar y safle yn ystod y cau ffordd.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Bydd pob bws yn gweithredu yn uniongyrchol i/o Gyfnewidfa Bargod ac ni fyddant yn gwasanaethu Sgwâr Hanbury na Sgwâr Frenhinol. Bydd bysiau ar lwybr C18 yn gweithredu ar hyd Stryd y Coed,

Stryd Ruth a Stryd Henry ac ni fyddent yn gwasanaethu Sgwâr Hanbury, Sgwâr Frenhinol neu Plasnewydd. Bydd conau 'dim aros' yn cael eu gosod ar hyd corneli Stryd y Coed, Stryd Henry a Stryd Ruth i gynorthwyo'r llwybr bysiau amgen.

FFAIR Y GAFAF, COED DUON

Dydd Sadwrn 30 Tachwedd 2019

LLEOLIAD: Y Stryd Fawr, Coed Duon.

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Y Stryd Fawr o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol Pentwyn o 7.00pm ar 29.11.19 tan 10.00pm ar 30.11.19. Bydd Stryd y Bont a Heol Pentwyn yn aros ar agor.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: Dylai manwerthwyr nad oes ganddynt fynediad lôn gefn oddi ar yr ardal cau ffyrdd ar y Stryd Fawr, Coed Duon, drefnu bod nwyddau sydd eu hangen yn ystod penwythnos y digwyddiad yn cael eu derbyn cyn 7.00pm ar 29.11.19 neu rhwng 1.00am - 6.00am ar 30.11.19. Bydd unrhyw fanwerthwyr sydd â pharcio preifat sy'n gofyn am fynediad i'r safle yn cael mynediad hyd at 8.30am ac ar ôl 6.00pm ar 30.11.19. Os oes angen mynediad arnoch, cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk / 01443 866390 fel y gellir llunio rhestr o fanwerthwyr ar gyfer y stiward cau ffyrdd.

MYNEDIAD I BRESWYLLWYR: Gwaherddir aros a llwytho ar wahanol rannau o Heol Gordon, Heol Albany, Heol Attlee a Heol Bloomfield er mwyn cynorthwyo'r llwybrau bysiau amgen ar gyfer y digwyddiad. Caiff conau 'dim aros' eu gosod yn yr ardaloedd hyn ac ni chaniateir parcio o 7.00pm ar 29.11.19 tan 10.00pm ar 30.11.19. Caiff preswylwyr Heol Wesley eu dosbarthu â phasys i gael mynediad i'w heiddo drwy Heol Gefn o 7.00pm ar 29.11.19 tan 10.00pm ar 30.11.19. Dyma'r unig lwybr mynediad i'ch eiddo yn ystod y cyfnod cau ffyrdd a rhaid i'r pasys fod yn weladwy wrth fynd i mewn. Bydd y rhwystr yn cael ei ddatgloi yn ystod y cau ffordd a bydd stiward ar ddyletswydd yn ystod oriau agor y digwyddiad. Bydd gwarchod a monitro rhannol o'r rhwystr dros nos. Os yw'r safle heb wasanaeth pan fyddwch yn mynd i mewn i, neu'n gadael, y safle, sicrhewch fod y rhwystr yn cael ei gau ar ôl hynny. Os oes angen rhagor o basys arnoch, ffoniwch 01443 866390 / digwyddiadau@caerffili.gov.uk. Cofiwch y bydd Maes Parcio Wesley yn parhau i fod yn faes parcio talu ac arddangos er bod mynediad i'r maes parcio yn gyfyngedig; os byddwch yn parcio yma gnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y fffoedd a nodir ar yr hysbysiau talu ac arddangos.

TACSIS: Ni chaniateir unrhyw dacsis ar y safle yn ystod y cau ffyrdd.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Nid yw'r digwyddiad hwn yn effeithio ar unrhyw arosfannau bysiau. Bydd llwybrau amgen yn gweithredu o gwmpas Heol Gordon, Heol Albany, Heol Attlee, Heol Bloomfield, Heol Pentwyn a Choedlan Pentwyn. Caiff conau 'dim aros' eu gosod yn yr ardaloedd hyn i helpu gyda'r llwybrau bysiau amgen a bydd y parcio'n gyfyngedig yn yr ardaloedd hyn.

FFAIR Y GAELF, RHISGA **Dydd Sadwrn 30 Tachwedd 2019**

LLEOLIAD: Parc Tredgar, Rhisga.

ORIAU AGOR: 2.00pm - 6.00pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Nid oes cau ffyrdd ar gyfer y digwyddiad hwn.

MYNEDIAD TACSIS, MANWERTHWYR A PHRESWYLWYR: Nid yw'r digwyddiad hwn yn effeithio ar unrhyw faterion mynediad.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Nid yw'r digwyddiad hwn yn effeithio ar unrhyw arosfannau/llwybrau bysiau.

FFAIR NADOLIG CAERFFILI **Dydd Sadwrn 7 a** **Dydd Sul 8 Rhagfyr 2019**

LLEOLIAD: Heol Caerdydd a Maes Parcio'r Twyn.

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm Dydd Sadwrn a 10.00am - 4.00pm Dydd Sul.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Heol Caerdydd a Stryd y Castell (y ffordd tua'r gogledd yn unig) o 11.00pm ar 6.12.19 tan 9.00pm ar 8.12.19. Bydd system unffordd Stryd Sain Ffagan yn cael ei thynnu'n ôl yn ystod y cyfnod o gau'r ffyrdd rhwng ei chyffordd â Stryd Bradford a Heol Caerdydd. Rhaid i gerbydau gymryd tro i'r chwith wrth yrru o Stryd Sain Ffagan i Stryd Bradford.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: Dylai manwerthwyr nad oes ganddynt fynediad lôn gefn oddi ar yr ardal cau ffyrdd ar Heol Caerdydd drefnu bod nwyddau sydd eu hangen yn ystod penwythnos y digwyddiad yn cael eu derbyn cyn hanner nos ar 6.12.19 neu rhwng 4.30am - 7.00am ar 7.12.19 a 4.30am - 8.00am ar 8.12.19. Bydd manwerthwyr Stryd Sain Ffagan sydd â lle parcio/garej yng nghefn eu heiddo ar Lôn y Parc yn cael pasys mynediad i'w defnyddio yn ystod y digwyddiad. Gellir defnyddio Ysgol y Twyn ac Ysgol y Castell hefyd ar gyfer parcio yn ystod oriau agor bob dydd os oes angen ac os ydych â phas. Gall manwerthwyr a staff y Llyfrgell sydd â mynediad i'r maes parcio y tu ôl i'r Principality Building Society a Llyfrgell Caerffili wneud cais am basys mynediad trwy gysylltu â digwyddiadau@caerffili.gov.uk / 01443 866390.

GWASANAETH DERBYN NWYDDAU A MAES PARCIO ICELAND A SPORTS DIRECT: Ni chaniateir mynediad i'r cyhoedd i'r maes parcio. Bydd stiward yn monitro'r bolardiau disgyn y gellir eu cloi rhwng Stryd Windsor a Maes Parcio Sports Direct/Iceland yn ystod y digwyddiad. Bydd angen i unrhyw drefniadau taci gael eu gwneud o ddiwedd Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor. Gall deiliaid allwedd, rheolwyr a gweithwyr sifft gynnar Iceland a Sports Direct fynd i'r maes parcio drwy Heol Caerdydd o 4.30am tan 7.00am ar ddydd Sadwrn a 4.30am hyd at 8.00am ar ddydd Sul. Ar ôl y cyfnod hwn, caniateir i gerbydau adael y maes parcio siopau dim ond drwy Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor. Dylai pob aelod arall o'r staff barcio mewn meysydd parcio amgen yn y cyffiniau neu mae darpariaeth ar gael yn Ysgol y Castell neu Ysgol y Twyn. Bydd pasys parcio yn cael eu dosbarthu i Sports Direct/Iceland ar gyfer yr ysgolion hyn. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ar y diwrnod, ffoniwch 07876 358074 i siarad â swyddog digwyddiad y safle.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR: Er mwyn hwyluso siwrnai ddiogel ar gyfer cerbydau derbyn nwyddau Sports Direct/Iceland drwy Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor, gofynnir i'r preswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Gwaherddir aros a llwytho

yn y lôn hon o 5.00pm ar 6.12.19 tan 9.00pm ar 8.12.19. Bydd preswylwyr Stryd Sain Ffagan sydd â lle parcio/garej yng nghefn eu heiddo ar Lôn y Parc yn derbyn pasys mynediad yn ystod y digwyddiad. Gellir defnyddio Ysgol y Twyn ac Ysgol y Castell hefyd ar gyfer parcio yn ystod oriau agor bob dydd os oes angen.

TACSIS: Bydd eithriad ar gyfer tacsis o 7.00pm ar 7.12.19 i 7.00am ar 8.12.19.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Bydd yr arosfannau bysiau yr effeithir arnynt gan y cau ffyrdd yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr amgen ar waith ar hyd Stryd Clive, Stryd Ludlow a Heol y Cilgant. Caiff conau 'dim aros' eu gosod yn yr ardaloedd hyn i gynorthwyo gyda'r llwybrau bysiau amgen.

GORYMDAITH AFON Y GOLEUNI **Dydd Iau 19 Rhagfyr 2019**

LLEOLIAD: Strydoedd Amrywiol trwy ganol tref Caerffili o Faes Parcio a Theithio Gorsaf Rheilffordd Caerffili i ddiwedd glog y tân gwyllt yn Heol y Cilgant.

ORIAU AGOR: Yn cychwyn am 6.30pm tan tua 7.15pm.

CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd cau ffyrdd treigl yn digwydd o 6.30pm o Deras yr Orsaf, Heol Caerdydd, Stryd Sain Ffagan a Heol y Cilgant. Bydd cyn lleied o oedi â phosibl a bydd yr heolydd yn ailagor cyn gynted ag y bydd yr orymdaith wedi mynd drwy bob ardal lle mae'r ffordd ar gau. Bydd Heol y Cilgant rhwng ei chyffordd â Maes Parcio Heol y Cilgant ac Ystâd Heol Trecastell yn parhau i fod ar gau o 6.30pm tan tua 8.00pm oherwydd y cyhoedd yn yr ardal hon a fydd yno ar gyfer yr arddangosiad tân gwyllt.

MYNEDIAD TACSIS, MANWERTHWYR A PHRESWYLWYR: Bydd mynediad yn cael ei gynnal ond bydd cerbydau'n cael eu hoedi a byddant yn dilyn eu llwybr penodol ar ôl i'r orymdaith fynd drwy bob rhan o'r cau ffyrdd. Bydd angen i bob traffig sydd angen mynediad i Ystâd Heol Trecastell gael mynediad drwy Heol Nantgarw ar gyfer y cyfnod cau ffyrdd.

LLWYBRAU AC AROSFANNAU BYSIAU: Ni fydd unrhyw arosfannau/llwybrau bysiau ar gau yn ystod yr orymdaith; fodd bynnag, caiff bysiau eu hoedi a byddant yn dilyn eu llwybr arferol ar ôl i'r orymdaith fynd heibio.

DIOLCH AM EICH AMSER A **CHYDWEITHREDIAD YN YSTOD Y CYFNOD** **PRYSUR HWN.**

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r Rheolwr Canol Trefi ar **01443 866211 / canoltrefi@caerffili.gov.uk** neu Ganolfan Ymwelwyr Caerffili ar **029 22088 0011 / croesocaerffili@caerffili.gov.uk**.

I gymryd rhan yn unrhyw un o'r digwyddiadau neu i roi adborth ar ôl y digwyddiadau, cysylltwch â'r Tim Digwyddiadau ar **01443 866390 / digwyddiadau@caerffili.gov.uk**.

Dilynwch ddigwyddiadau **Croeso Caerffili** ar Instagram a Facebook   **Croeso Caerffili**.

Am ragor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau, ewch i **www.visitcaerphilly.com/events**.

Am ragor o wybodaeth am Farchnad Nadolig Caerffili ewch i **www.marchnadnadoligcaerffili.co.uk**.

